



Llŷr Gruffydd, AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

6 Gorffennaf 2023

Annwyl Llŷr,

### Adolygiad Annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi - Adroddiad

Ysgrifennais atoch ym mis Gorffennaf 2021 i'ch hysbysu am y trefniadau ar gyfer adolygiad annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT). Mae hyn yn mynd i'r afael ag ymrwymiad a wnaed yn ystod hynt Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd, i gynnal adolygiad annibynnol. Yn dilyn proses dendro agored, penodwyd Eunomia Research and Consulting ym mis Mehefin 2022 i gynnal yr adolygiad annibynnol, gyda'r adolygiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2023.

Bydd y Pwyllgor am fod yn ymwybodol bod Eunomia wedi cwblhau'r adolygiad a bod ei adroddiad wedi'i gyhoeddi heddiw ar wefan llyw.cymru. Roedd cwmpas yr adolygiad yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd LDT a'i rhoi ar waith. Yn benodol, nod yr adolygiad oedd ystyried effaith cyfraddau LDT ar ymddygiad yn y sector gwastraff ac i ba raddau y mae deddfwriaeth LDT wedi dylanwadu ar ymddygiadau.

Amgaeaf gopi o'r [adroddiad llawn a'r crynodeb gweithredol](#). Bydd y casgliadau a'r argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad yn llywio datblygiad LDT yn y dyfodol.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS  
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol  
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.